

Gwelliannau Stryd y Castell

Adroddiad Ymgysylltu

Mehefin 2026

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgysylltiad cyhoeddus ar gynigion Cyngor Caerdydd i welliannau ar Stryd y Castell.

Agorodd yr ymgysylltiad i'r cyhoedd ar 26 Tachwedd 2025 tan 5 Ionawr 2026.

Derbyniodd 787 o fusnesau a thrigolion lythyr, yn rhoi gwybod am y pecyn gwybodaeth sydd ar gael i'w weld ar-lein ar wefan y Cyngor ynghyd â chynllun. Roedd hyn yn cynnwys busnesau a thrigolion yn uniongyrchol ar y llwybr a'r holl eiddo o fewn 100m i'r prosiect.

Roedd y pecyn gwybodaeth yn cynnwys cynlluniau o'r cynllun a gwybodaeth atodol i roi cyd-destun i'r cynnig.

Ategwyd hyn gan waith hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg.

Rhoddwyd yr opsiwn i ymatebwyr ymateb trwy fewnflwch e-bost pwrpasol [TimyRhaglenDrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk]

Roedd y gweithgareddau canlynol yn rhan o'r ymgysylltiad i'w hyrwyddo ac i gael adborth gan y cyhoedd er mwyn llywio'r cynllun:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun;
- Negeseuon y cyfryngau cymdeithasol
- Hysbysiadau safle yn cael eu harddangos yng nghyffiniau'r cynllun;
- E-bost at ymgynghoreion statudol; a
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Ymatebion i'r ymgysylltiad

Cafodd 787 o lythyrau eu hanfon at drigolion a busnesau yn ardal y cynnig hwn. Mae adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymgysylltu ac yn categorio ymatebion fel Cadarnhaol, Negyddol, Cymysg/Awgrymiadau neu y Tu Allan i'r Cwmpas.

O'r 10 e-bost hyn:

- **20% Cadarnhaol (2 ymateb)**

- **20% Negyddol (2 ymateb)**
- **50% Cymysg / Awgrymiadau (5 ymateb)**
- **10% Tu Allan i'r Cwmpas (1 ymateb)**

Crynodeb o'r Ymatebion

- **20% Cadarnhaol (2 ymateb)**

Roedd adborth cadarnhaol yn adlewyrchu cefnogaeth gref i gynigion Stryd y Castell, yn enwedig y seilwaith beicio gwell. Croesawodd rhanddeiliaid y cynllun fel cam cadarnhaol ar gyfer teithio llesol a chysylltedd yn y ddinas, tra hefyd yn darparu awgrymiadau adeiladol i wella diogelwch, hygyrchedd a darpariaeth parcio beiciau ymhellach. Roedd tŷn y sylwadau yn gyffredinol yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar gyfleoedd i gryfhau'r cynllun yn hytrach na phryderon am ei gyflawni.

- **20% Negyddol (2 ymateb)**

Roedd ymatebion negyddol yn canolbwyntio ar bryderon y gallai agweddau ar y cynigion gael effaith andwyol. Ymhlith y materion allweddol roedd ofnau y gallai gofod llai ar y ffordd gynyddu tagfeydd a rhwystro amseroedd ymateb brys, yn ogystal â gwrthwynebiadau i drefniadau croesfannau cerddwyr a beiciau arfaethedig, a oedd yn cael eu hystyried gan rai yn ddiangen neu'n annhebygol o weithredu'n effeithiol. Roedd yr ymatebion hyn yn adlewyrchu gwrthwynebiad i elfennau dylunio penodol a phryderon ynghylch canlyniadau ymarferol.

- **50% Cymysg / Awgrymiadau (5 ymateb)**

Nodweddwyd ymatebion cymysg gan bryderon ymarferol a cheisiadau am eglurhad yn hytrach na chefnogaeth neu wrthwynebiad llwyr. Cododd rhanddeiliaid faterion sy'n ymwneud â diogelu palmentydd, mynediad i fusnesau a gwestai, trefniadau dosbarthu, sŵn adeiladu, tarfu ar wasanaethau bysus, cyfathrebu â chontractwyr ac ymarferoldeb trefniadau mynediad ar strydoedd cyfagos. Er bod pryderon wedi'u mynegi, roedd ymatebion yn gyffredinol wedi'u fframio fel cwestiynau neu awgrymiadau gyda'r nod o sicrhau bod y cynllun yn lleihau aflonyddwch ac yn gweithredu'n effeithiol.

- **10% Tu Allan i'r Cwmpas (1 ymateb)**

Roedd adborth y tu allan i'r cwmpas yn ymwneud â pholisi trafnidiaeth ehangach yn hytrach na chynllun Stryd y Castell ei hun. Codwyd cwestiwn ynghylch a allai'r gwelliannau arwain at ardal aer glân neu gynllun codi tâl am ddefnyddio ffyrdd yn y dyfodol, sy'n dod y tu allan i gylch gwaith uniongyrchol y cynigion ailddatblygu.

Sylwadau a godwyd

Gellir crynhoi'r prif faterion a godwyd drwy'r ymgysylltiad fel a ganlyn:

- **Mynediad i Fusnes ac Eiddo** – Codwyd pryderon gan fusnesau lleol a rhanddeiliaid lletygarwch ynglŷn â mynediad i adeiladau yn ystod y gwaith adeiladu, gan gynnwys mynediad i gerddwyr, mynediad i gwsmeriaid, danfoniadau, argaeledd mannau

llwytho ac effaith y gwaith ar ffyrdd a phalmentydd ar weithrediadau o ddydd i ddydd.

- **Aflonyddwch yn Sgil Gwaith Adeiladu** – Mynegwyd pryderon ynglŷn ag aflonyddwch sy'n deillio o'r cam adeiladu, yn enwedig effeithiau sŵn ar drigolion cyfagos a'r tarfu posibl dros dro ar wasanaethau bysus a safleoedd bysus.
- **Llif Traffig a Thagfeydd** – Cododd rhanddeiliaid bryderon y gallai'r gostyngiad arfaethedig mewn gofod ffyrdd i ddarparu ar gyfer seilwaith beicio waethygu tagfeydd ac effeithio ar amseroedd teithio, yn enwedig ar gyfer cerbydau gwasanaethau brys a mynediad ar draws y rhwydwaith ehangach.
- **Seilwaith Cerdded a Beicio** – Derbyniwyd adborth ynghylch dyluniad a gweithrediad cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, gan gynnwys pryderon am ryngweithio rhwng beicwyr a cherddwyr, trefniadau croesi ger safleoedd bysus, ac awgrymiadau i wella darpariaeth parcio beiciau a chynnal mynediad i feiciau yn ystod y gwaith adeiladu.
- **Mesurau Mynediad a Diogelwch** – Codwyd cwestiynau ynghylch mesurau i atal mynediad i gerbydau heb awdurdod i ardaloedd i gerddwyr, ymarferoldeb trefniadau mynediad ar strydoedd cyfagos a chyfleoedd i wella diogelwch mewn mannau croesi allweddol y tu hwnt i ffin uniongyrchol y cynllun.
- **Cwmpas y Cynllun a'r Polisi Ehangach** – Codwyd ymholiadau am faterion y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol cynigion Stryd y Castell, gan gynnwys mesurau parth aer glân neu godi tâl am ddefnyddio ffyrdd yn y dyfodol a gwelliannau trafndiaeth ehangach yn yr ardaloedd cyfagos.

Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Derbyniwyd cyfanswm o **10 ymateb gan rhanddeiliaid**. Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos **ymateb cymysg ond yn gyffredinol adeiladol** i'r cynigion, gyda **20% o'r ymatebion yn gefnogol** o'r cynllun, gan groesawu'r gwelliannau arfaethedig i seilwaith beicio a chysylltedd ehangach. **Roedd 50% o'r ymatebion yn gymysg**, gan godi pryderon ymarferol a cheisiadau am eglurhad ynghylch mynediad, effeithiau adeiladu, danfoniadau, sŵn, gweithrediadau busnes a diogelwch cerddwyr, tra'n parhau i fod yn niwtral yn bennaf tuag at y cynllun cyffredinol. **Roedd 20% o'r ymatebion yn gwrthwynebu**, yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch tagfeydd, mynediad brys ac effeithiolrwydd trefniadau croesi arfaethedig i gerddwyr a beiciau. **Roedd y 10% yn weddill o'r ymatebion y tu allan i'r cwmpas**, yn ymwneud â materion polisi trafndiaeth ehangach y tu hwnt i gynigion Stryd y Castell.

Yn gyffredinol, cydnabuodd rhanddeiliaid fanteision posibl y cynllun, yn enwedig mewn perthynas â gwelliannau teithio llesol, ond tynnodd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod effeithiau adeiladu, mynediad at fusnesau, rhyngweithiadau rhwng cerddwyr a beicwyr, a mesurau rheoli traffig ehangach yn cael eu hystyried yn ofalus i leihau tarfu a chynnal symudiad diogel ac effeithiol i bob defnyddiwr.

Argymhellion/ Camau Gweithredu

Argymhellir bod y cynllun yn mynd rhagddo yn unol â dyluniad y cynllun diwygiedig, gyda'r camau canlynol:

- **Ymgysylltu â Busnesau a Rhanddeiliaid** – Parhau i ymgysylltu â busnesau, trigolion a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt i sicrhau cyfathrebu clir ynghylch y camau adeiladu, trefniadau mynediad, rheoli danfoniadau a phwyntiau cyswllt pwrpasol trwy gydol y gwaith.
- **Rheoli Adeiladu a Mynediad** – Sicrhau bod y gwaith adeiladu yn lleihau tarfu ar gerddwyr, busnesau, trafndiaeth gyhoeddus a danfoniadau, gydag ystyriaeth arbennig i gynnal mynediad i'r man llwytho, mynediad i gwsmeriaid a hysbysu ymlaen llaw am newidiadau dros dro.
- **Adolygiad o'r Cyfleusterau i Gerddwyr a Beicwyr** – Timau perthnasol i adolygu elfennau dylunio manwl sy'n ymwneud â rhyngweithio rhwng cerddwyr a beicwyr, gan gynnwys trefniadau croesi, darpariaeth parcio beiciau a chyfleoedd i gynnal cyfleusterau beicio yn ystod y gwaith adeiladu lle bo'n ymarferol.
- **Mynediad Mewn Argyfwng a Monitro Traffig** – Cydnabod pryderon ynghylch tagfeydd ac amseroedd ymateb y gwasanaethau brys a pharhau i weithio gyda'r gwasanaethau brys perthnasol a monitro perfformiad y rhwydwaith wrth i'r cynllun fynd rhagddo.
- **Ystyriaethau Ardal Gyhoeddus a Diogelwch** – Ystyried cyfleoedd i ymgorffori mesurau diogelwch ychwanegol, gan gynnwys atal mynediad i gerbydau anawdurdodedig i ardaloedd i gerddwyr a gwelliannau i fannau croesi cyfagos lle bo'n bosibl mewn cynlluniau yn y dyfodol.
- **Materion Polisi a Rhwydwaith Ehangach** – Nodi sylwadau sy'n ymwneud â materion polisi trafndiaeth ehangach, gan gynnwys codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a phryderon tagfeydd ar draws y rhwydwaith, a bwydo'r rhain i gynllunio trafndiaeth a datblygu polisi yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

Camau Nesaf

Bydd y prosiect yn mynd rhagddo fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, gan ystyried yr ymatebion ymgysylltu a dderbyniwyd. Bydd y dyluniad yn cael ei weithredu, gan ystyried opsiynau gorfodi, gwelliannau i gerddwyr a safleoedd bysus, a lliniaru amgylcheddol. Bydd pryderon a materion pwnc y tu allan i'r cwrdd yn cael eu trosglwyddo i'r timau perthnasol sy'n gweithio ar y prosiectau hynny. Bydd monitro ar ôl gweithredu yn cael ei ystyried i asesu effeithiolrwydd y cynllun ac i nodi a oes angen mesurau pellach.